# Clefyd melyn mewn babanod newydd-anedig

Mai 2010

Mai 2016

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor ar glefyd melyn mewn babanod newydd-anedig a nodir yng nghanllaw NICE CG98.

Diweddarwyd y wybodaeth ynghylch profion yn cydnabod clefyd melyn mewn babanod newydd-anedig, pryd i ddechrau triniaeth a defnyddio triniaeth ffototherapi yn 2016. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon yn yr adrannau ar profi am glefyd melyn a trin clefyd melyn.

### *A yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i mi?*

Ydy, os ydych yn rhiant neu ofalwr i faban newydd-anedig (gan gynnwys babanod sydd wedi'u geni gynnar) gyda chlefyd melyn, o enedigaeth i 28 diwrnod.

Na, os ydych yn rhiant neu ofalwr i faban:

- gyda chlefyd melyn sy'n para am fwy na'r 28 diwrnod cyntaf ar ôl rhoi genedigaeth
- sydd angen llawdriniaeth i drin achos eu clefyd melyn
- sydd â math o glefyd melyn a achosir gan lefel uwch o fath arbennig o filirwbin a elwir yn 'filirwbin rhediadol'.

## Clefyd melyn mewn babanod newydd-anedig

Clefyd melyn yw'r enw a roddir ar y cyflwr sy'n gwneud i'r croen a gwyn y llygaid felynu. Mae clefyd melyn mewn babanod newydd-anedig yn gyffredin iawn, fel arfer mae'n ddiniwed ac fel arfer yn gwella ar ei ben ei hun mewn 10-14 diwrnod.

Mae babanod newydd-anedig yn cynhyrchu llawer iawn o'r pigment bilirwbin. Hwn yw'r sylwedd sy'n gwneud i'r croen a gwyn y llygaid felynu. Cynhyrchir bilirwbin wrth i gelloedd coch y gwaed ymddatod. Fel arfer caiff ei brosesu gan yr iau/afu a'i drosglwyddo allan o'r corff drwy'r coluddyn mewn carthion. Mae'r croen a'r llygaid yn troi'n felyn mewn achosion o glefyd melyn oherwydd bod mwy o filirwbin yn y corff.

Nid oes angen triniaeth na monitro ychwanegol ar y rhan fwyaf o fabanod sy'n datblygu clefyd melyn. Fodd bynnag, mae rhai babanod yn datblygu lefelau uchel iawn o filirwbin, a all fod yn niweidiol os na chaiff ei drin. Mewn achosion prin, gall achosi niwed i'r ymennydd.

Nod y canllawiau hyn yw helpu i atal neu ganfod lefelau uchel iawn o filirwbin. Gall hefyd helpu i nodi'r babanod hynny sydd â chlefyd melyn oherwydd clefyd yr iau/afu.

Os ydych yn credu bod clefyd melyn ar eich baban bydd y meddyg neu'r fydwraig yn gallu eich helpu i farnu a oes angen ei drin ai peidio.

## Eich tîm gofal

Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn meysydd triniaeth neu gymorth gwahanol fod yn rhan o'ch gofal. Gallai'r rhain gynnwys bydwragedd, meddygon teulu, nyrsys a meddygon ysbyty.

### *Gweithio gyda chi*

Dylai eich tîm gofal siarad â chi am glefyd melyn mewn babanod newydd-anedig. Dylai egluro unrhyw brofion, triniaethau neu gymorth y dylid eu cynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i'ch baban. Mae rhestr

o gwestiynau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i siarad â thîm gofal eich baban.

## Gwybodaeth a chymorth

Os ydych newydd gael baban, dylai'r meddyg neu'r fydwraig ddweud wrthych am glefyd melyn, a chynnig gwybodaeth sy'n addas i chi. Dylai'r wybodaeth gynnwys:

- y faith bod clefyd melyn yn gyffredin, ac fel arfer yn para am gyfnod byr ac yn ddiniwed
- beth sy'n ei wneud yn fwy tebygol y gallai baban ddatblygu clefyd melyn sylweddol
- sut i archwilio eich baban am glefyd melyn
- beth i'w wneud os ydych yn credu y gallai clefyd melyn fod ar eich baban
- pam ei bod yn bwysig archwilio cewynnau eich baban am wrin tywyll neu garthion golau calchaidd
- pam ei bod yn bwysig canfod clefyd melyn yn y 24 awr cyntaf ac, os ydych o'r farn bod gan eich baban glefyd melyn yn ystod yr amser hwn, siaradwch ag aelod o'ch tîm gofal iechyd amdano ar unwaith
- tawelwch meddwl ynglŷn â pharhau i fwydo ar y fron.

### *Bwydo eich baban*

Os ydych yn bwydo eich baban ar y fron, dylid eich annog i fwydo ar y fron yn rheolaidd, ac i ddeffro eich baban i'w fwydo os oes angen. Os yw eich baban yn edrych yn felyn dylid cynnig cymorth i chi er mwyn eich helpu i fwydo ar y fron yn llwyddiannus. Ceir cyngor ar hyn yng nghanllaw NICE ar ofal ôl-enedigol.

## Pa fabanod sydd fwyaf tebygol o ddatblygu achos o glefyd melyn y bydd angen ei drin?

Y babanod canlynol sydd fwyaf tebygol o ddatblygu clefyd melyn sydd angen triniaeth:

- babanod sydd wedi'u geni'n fuan (llai na 38 wythnos o feichiogrwydd)
- babanod sydd â brawd neu chwaer a gafodd glefyd melyn y bu angen ei drin pan roeddent yn fabanod

- babanod y mae eu mamau yn bwriadu eu bwydo ar y fron yn unig
- babanod sydd ag arwyddion o glefyd melyn yn y 24 awr cyntaf ar ôl rhoi genedigaeth.

P'un a yw eich baban yn edrych fel bod ganddo glefyd melyn ai peidio, dylai'r meddyg neu'r fydwraig wirio os yw eich baban yn wynebu risg o ddatblygu lefelau uchel o glefyd melyn yn fuan ar ôl rhoi genedigaeth, ac os felly, dylai'r meddyg neu'r fydwraig roi archwiliad ychwanegol i'ch baban i wirio am glefyd melyn yn ystod y 48 awr cyntaf.

## Profion ar gyfer clefyd melyn

Dylid archwilio baban newydd-anedig am arwyddion o glefyd melyn ar bob cyfle, yn arbennig yn ystod y 72 awr cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar eich baban yn noeth mewn golau llachar (golau naturiol os yn bosibl) i weld a yw'n ymddangos yn felyn. Gallwch ganfod clefyd melyn yn haws drwy wasgu'r croen yn ysgafn. Mae gwyn y llygaid a'r deintgig yn melynu yn arwyddion defnyddiol ar gyfer canfod clefyd melyn, yn arbennig mewn babanod gyda thonau croen mwy tywyll. Gallwch chi neu'r meddyg neu'r fydwraig gynnal yr archwiliad.

Os yw'n ymddangos bod clefyd melyn ar eich baban, yna mae'n bwysig mesur lefel y bilirwbin. Ni ddylai'r meddyg neu'r fydwraig ddibynnu ar archwiliad gweledol yn unig i amcangyfrif lefel y bilirwbin. Gellir mesur lefel y bilirwbin yn syml iawn ar gyfer y rhan fwyaf o fabanod, gan ddefnyddio dyfais arbennig a ddelir â llaw a osodir am gyfnod byr ar y croen ('bilirwbinomedr'). Ni fydd yn gwneud loes i'ch baban. Fodd bynnag, bydd angen prawf gwaed ar fabanod sydd â darlleniad uchel o filirwbin, babanod sy'n llai na 24 awr oed a rhai babanod a enir yn fuan (sy'n llai na 35 wythnos oed ar enedigaeth). Gweler isod am ragor o wybodaeth am y profion hyn.

Bydd y meddyg neu'r fydwraig yn defnyddio canlyniadau'r profion hyn i benderfynu a oes angen trin y clefyd melyn, a pha fath o driniaeth fyddai orau. Dylai fod ganddynt dabl neu siartiau ar gyfer hyn.

Efallai y bydd eich baban yn cael clefyd melyn sy'n para'n hirach nag y bydd eich meddyg neu'ch bydwraig yn ei ddisgwyl. Os felly, dylech chi a'ch meddyg neu fydwraig edrych am garthion golau, calchaidd a/neu wrin tywyll a bydd angen profion gwaed ac wrin pellach.

### *Mesur lefelau bilirwbin mewn babanod sydd â chlefyd melyn*

**Babanod yn ystod y 24 awr cyntaf**

Os yw eich baban yn edrych fel bod ganddo glefyd melyn yn y 24 awr cyntaf ar ôl rhoi genedigaeth, bydd angen prawf gwaed ar frys ar eich baban (o fewn 2 awr). Mae'r prawf hwn yn mesur lefel y bilirwbin yn y gwaed i weld a oes angen trin y clefyd melyn. Unwaith y bydd y meddyg neu'r fydwraig yn gwybod canlyniadau'r prawf gwaed, efallai y bydd angen cynnal mwy o brofion er mwyn gweld a oes salwch sylfaenol yn achosi'r clefyd melyn.

**Babanod dros 24 awr**

Os yw eich baban yn edrych fel bod ganddo glefyd melyn a'i fod dros 24 awr, dylai eich meddyg neu fydwraig fesur lefel bilirwbin eich baban o fewn 6 awr. Fel arfer gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio bilirwbinomedr. Os nad oes bilirwbinomedr ar gael, gellir mesur lefelau bilirwbin drwy ddefnyddio prawf gwaed.

## Trin clefyd melyn

Efallai na fydd rhai triniaethau yn addas i'ch baban, yn dibynnu ar ei union amgylchiadau. Os oes gennych gwestiynau am y triniaethau a'r opsiynau penodol a gaiff eu trafod yn y wybodaeth hon, siaradwch ag aelod o dîm gofal iechyd eich baban.

Os bydd angen triniaeth ar eich baban ar gyfer clefyd melyn, gwneir hyn yn yr ysbyty. Caiff eich baban ei fonitro i weld a yw'r driniaeth yn gweithio, a chwblheir profion ar gyfer cyflyrau a allai fod wedi achosi'r clefyd melyn.

### *Gwybodaeth am drin clefyd melyn*

Dylai'r meddyg neu'r fydwraig ddweud wrthych am y triniaethau ar gyfer clefyd melyn a rhoi gwybodaeth briodol i chi. Dylai'r wybodaeth gynnwys:

- y gwahanol opsiynau sydd ar gael, pam eu bod yn cael eu hystyried a sut y gallant helpu i drin clefyd melyn (gweler isod)
- manteision, problemau posibl ac unrhyw effeithiau hirdymor yn gysylltiedig â'r triniaethau
- beth mae'r driniaeth yn ei chynnwys
- pa mor hir y mae'r driniaeth yn debygol o bara
- beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio
- sut y gallwch helpu, cyffwrdd a bwydo eich baban yn ystod eu triniaeth.

### *Ffototherapi*

Os yw'r meddyg neu'r fydwraig yn penderfynu bod angen triniaeth oherwydd bod lefel bilirwbin eich baban yn uwch na'r disgwyl, dylid trin eich baban mewn ysbyty drwy ddefnyddio ffototherapi.

Mae ffototherapi yn golygu gosod y baban o dan olau arbennig (nid golau haul). Mae golau sydd ar donfedd benodol yn helpu'r corff i ddadelfennu'r bilirwbin a'i basio allan o'r corff.

Yn ystod triniaeth ffototherapi bydd eich baban yn cael ei osod ar ei gefn oni bai bod ganddo gyflyrau eraill sy'n rhwystro hyn. Dylid amddiffyn llygaid eich baban a rhoi gofal rheolaidd iddynt. Efallai y caiff eich baban ei roi mewn crud neu ddeorydd. Dylid monitro tymheredd eich baban a dylid ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cael digon o ddŵr (bod ganddo ddigon o hylif yn ei gorff). Gwneir hyn drwy bwyso eich baban bob dydd ac asesu ei gewynnau gwlyb.

Dylid rhoi gorau i'r driniaeth o bryd i'w gilydd am hyd at 30 munud er mwyn i chi allu gafael, bwydo a chael cwtsch gyda'ch baban, a newid eu cewyn. Dylid rhoi cymorth i chi i'w fwydo.

### Ffototherapi dwys

Os yw lefel bilirwbin eich baban yn uchel iawn neu'n codi'n gyflym, neu os nad yw clefyd melyn eich baban yn gwella ar ôl ffototherapi, dylid rhoi triniaeth ychwanegol i'ch baban. Dylai eich tîm gofal iechyd gynnig ffototherapi 'dwys'. Mae hyn yn golygu cynyddu'r golau a ddefnyddir yn y ffototherapi. Gellir troi'r lamp ffototherapi i fyny neu gellir ychwanegu ffynhonell olau arall ar yr un pryd i roi mwy o olau. Yn ystod ffototherapi dwys, fel arfer ni fydd yn bosibl i chi barhau i fwydo ar y fron. Mae hyn am na ddylid rhoi'r gorau i'r driniaeth am egwyliau. Fodd bynnag, gallwch dynnu llaeth o'ch bron, a gellir ei roi i'ch baban drwy diwb bwydo sy'n mynd i mewn i drwyn eich baban ac i mewn i'w stumog. Yn anaml, efallai y bydd angen hylifau a rhoddir y rhain yn uniongyrchol i mewn i wythïen drwy ddefnyddio 'peiriant diferu’. Gallwch fwydo eich baban ar y fron eto ar ôl rhoi'r gorau i'r ffototherapi dwys, a dylid cynnig cymorth ychwanegol i chi wneud hyn.

### Sicrhau bod ffototherapi yn gweithio

Bydd angen gwirio lefel y bilirwbin yng ngwaed eich baban gyda phrawf gwaed bob 4-6 awr ar ôl dechrau ffototherapi i weld a yw'r driniaeth yn gweithio. Unwaith y bydd lefelau'r bilirwbin wedi sefydlu neu ddisgyn, bydd dal angen ei wirio bob 6-12 awr. Pan fydd clefyd melyn eich baban yn gwella, gellir rhoi'r gorau i ffototherapi ond bydd angen prawf gwaed arall ar eich baban 12-18 awr yn ddiweddarach er mwyn sicrhau nad yw'r clefyd melyn wedi dychwelyd i lefel a fyddai angen triniaeth bellach. Ni fydd yn rhaid i'ch baban aros yn yr ysbyty ar gyfer hyn o reidrwydd.

## *Triniaethau eraill ar gyfer clefyd melyn*

Os yw lefel y bilirwbin yng ngwaed eich baban yn uchel iawn, mae'n bosibl y bydd angen cyfnewid ei waed yn gyfan gwbl (trallwysiad cyfnewid) oherwydd mai dyma'r ffordd gyflymaf i leihau lefelau bilirwbin. Bydd angen i'ch baban gael ei dderbyn i wely gofal dwys yn yr ysbyty ar gyfer hyn. Ar ôl y trallwysiad cyfnewidiol bydd angen prawf gwaed ar eich baban o fewn 2 awr er mwyn gwirio lefel y bilirwbin a gweld pa mor dda y mae'r driniaeth wedi gweithio.

Os oes afiechyd hemolytig ar eich baban (pan fo gwrthgyrff yng ngwaed y fam yn ymosod ar gelloedd gwaed y baban) a bod lefel y bilirwbin yn ei waed yn codi'n gyflym, efallai y bydd y meddyg yn awgrymu triniaeth a elwir yn imiwnoglobwlin mewnwythiennol (a elwir yn IVIG weithiau), sydd yn gynnyrch gwaed. Ystyr mewnwythiennol yw bod angen iddo gael ei chwistrellu i mewn i wythïen.

Ni ddylai'r meddyg gynnig unrhyw un o'r canlynol ar gyfer trin clefyd melyn eich baban newydd-anedig: agar, albwmin, barbitwriadau, siarcol, colestyramin, cloffibrad, penicilamin-D, glyserin, manna, metaloporffyrinau, riboflavin, meddyginiaeth Tsieineaidd traddodiadol, aciwbigiad neu homeopathi.

## Cwestiynau i'w gofyn am glefyd melyn mewn babanod newydd-anedig

Gall y cwestiynau hyn eich helpu i drafod cyflwr eich baban neu'r triniaethau a gynigiwyd gyda'ch tîm gofal iechyd.

- Sut y gallaf ddweud a oes clefyd melyn ar fy maban?
- Pa brofion sydd ar gael i ganfod a oes clefyd melyn ar fy maban?
- Sut y byddaf yn gwybod os oes angen triniaeth ar fy maban?
- A fydd clefyd melyn fy maban yn gwella ar ei ben ei hun?
- Pa fath o gymorth y gallaf i gael â bwydo ar y fron?
- Pam rydych wedi penderfynu y dylai fy mabi gael y math penodol hwn o driniaeth?
- Beth yw manteision ac anfanteision y driniaeth hon?
- Beth fydd yn digwydd yn ystod y driniaeth?
- Faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r driniaeth gael effaith?
- A oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r driniaeth hon? A oes unrhyw sgil-effeithiau hirdymor?
- Pa opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael?
- Beth fyddai'n digwydd os na fyddai fy maban yn cael y driniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

- Am ba hyd y bydd y driniaeth yn para? A fyddaf yn gallu bwydo fy maban a'i ddal yn ystod y driniaeth? Os na fyddaf, pryd fyddaf yn gallu gweld fy maban a'i ddal eto?

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Bliss – eleusen y babanod dan ofal arbennig, 0808 801 0322 www.bliss.org.uk
- Y Rhwydwaith Bwydo ar y Fron, 0300 100 0212 www.breastfeedingnetwork.org.uk
- Sefydliad Clefyd yr Afu mewn Plant, 0121 212 3839 www.childliverdisease.org
- La Leche League, 0845 120 2918 www.laleche.org.uk
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant, 0300 330 0700 www.nct.org.uk

Gallwch hefyd fynd i wefan NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1912-3